yn rhoi cartref i fyd natur

Cymru

# Crwydro gwarchodfa RSPB Ynys-hir

## Llwybr y morfa heli

**Llwybr cerdded hawdd 1.5 milltir o hyd**

Cerddwch drwy'r goedlan agored a'r dolydd lle gallwch weld y tingoch a gloÿnnod byw. Yna mae'r llwybr yn eich tywys i'r morfa heli lle cewch olygfeydd hyfryd o'r aber. Efallai y gwelwch las y dorlan neu ddyfrgi yn y pyllau dŵr croyw. Hefyd edrychwch am grëyr glas, crëyr bach neu neidr y gwair.

## Llwybr y goedlan

**Llwybr 1.5 o hyd sy'n eich tywys i ganol y goedlan dderw**

Yn y gwanwyn a'r haf dyma dro braf drwy goedlan o glychau'r gog. Cewch fwynhau cyfoeth o fywyd gwyllt yn cynnwys y gwybedog brith, telor y coed a'r gnocell fraith fwyaf. O guddfan Ynys-hir gallwch edrych i lawr ar y goedlan islaw ac oddi tanoch mae'r warchodfa gyfan.

## Llwybr y gwlyptir

**Llwybr 2.5 milltir o hyd sy'n eich tywys o amgylch y warchodfa**

Ar hyd y llwybr gwlyptir hwn fe welwch byllau, mawnog, gwelyau cyrs a morfa heli. Yn y gaeaf cewch wylio cornchwiglod, chwiwellod a chorhwyaid o guddfan Ynys Feurig. Yn yr haf, mae gweision neidr yn gwibio drwy'r awyr a madfallod yn torheulo ar y llwybr pren.




©Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Trwyddedd yr RSPB 100021787.

**RSPB Ynys-hir**
**01654 700222**
**rspb.org.uk/ynys-hir**

Biosffer Dyfi Biosphere
*gwerth y byd - world class by nature*

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 207076, yn Yr Alban rhif SC037654. YHR-0338-17-18